

Arolygiad Dilynol o Bractis Deintyddol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Gupta Dental Surgeons, Port Talbot

Dyddiad arolygu: 08 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym..... | 7 |
| | Ansawdd profiad y claf | 8 |
| | Darparu gofal diogel ac effeithiol | 10 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 19 |
| 4. | Beth nesaf? | 20 |
| 5. | Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol | 21 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 22 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella..... | 23 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Gupta Dental Surgeons, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 08 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r practis wedi cymryd camau gweithredu priodol ers ei arolygiad diwethaf ac, o ganlyniad, mae AGIC wedi penderfynu nad yw'r practis bellach yn wasanaeth sy'n peri pryder.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y gwelliannau yn parhau er mwyn sicrhau y rhoddir y gofal gorau posibl i gleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r materion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf er mwyn sicrhau bod amgylchedd y practis yn addas at y diben.
- Mae'r practis wedi cael ei lanhau'n drwyadl.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio'n wythnosol
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau pediatrig addas ar gael yn y pecyn argyfwng
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd yn unol â'r polisi y cytunwyd arno

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

5. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ei harolygiad diwethaf o Gupta Dental Surgeons ar 08 Ebrill 2019.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Ni allai AGIC fod yn sicr bod y prif ddeintydd yn defnyddio prosesau clinigol proffesiynol o ran cadw cofnodon.
- Nododd AGIC yn ystod yr arolygiad nad oedd prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu cyffuriau a chyfarpar brys a oedd wedi darfod.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y practis yn cael ei lanhau'n drwyadl.
- Mae'n rhaid i'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol.

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr [arolygiad](#) diwethaf.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis wedi cymryd camau cadarnhaol o ran galluogi'r cleifion i roi adborth. Er bod y broses hon yn mynd rhagddi ar adeg yr arolygiad, roeddem yn fodlon bod y trefniadau newydd yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol a bennwyd gan y rheoliadau.

Gwrando ar Adborth a Dysgu ohono

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- *Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu.*
- *Mae'n rhaid i'r practis roi proses ar waith i ymateb i adborth gan gleifion yn amserol.*

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Cynnal arolwg boddhad cleifion.
- Cynnal arolwg boddhad bob chwarter gyda samplau bach o 10 claf. Bydd hyn yn ein galluogi i gael cipluniau o farn cleifion ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol.
- Gan fod rheolwr ein Practis wedi bod yn ymgyfarwyddo â'r practis dros y 6 mis diwethaf, rwyf i a hi wedi gallu ymdrin â chwynion cleifion o fewn amserlen benodol. Mae'r protocol ar gyfer ymdrin â chwynion cleifion wedi cael ei adolygu a rhoddyd gwybod i'r tîm am y protocol ar gyfer "mynegi pryder".

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod arolwg profiad cleifion bellach wedi cael ei gynnal a bod y canlyniadau wrthi'n cael eu dadansoddi. Mae'r practis wedi sicrhau bod lle addas ar gael yn yr ystafell aros er mwyn sicrhau bod sylwadau'r cleifion ac unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i'r arolwg ar gael i'r cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod y practis wedi cymryd camau gweithredu digonol i sicrhau ei fod yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'r practis wedi cymryd camau gweithredu sylweddol i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas at y diben, gan gynnwys gwneud gwaith glanhau trwyadl a rhoi protocolau ar waith i sicrhau bod cyfarpar a meddyginiaethau yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn parhau i wella'r protocolau hyn er mwyn sicrhau bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal.

Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Dylid diogelu'r cypyrddau heb eu cloi yn yr ardaloedd aros er mwyn sicrhau nad yw'r cleifion yn gallu cyrraedd manau peryglus.
- Dylid gosod biniau offer miniog yn sownd er mwyn sicrhau na chaiff y staff na'r cleifion eu hanafu.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae cypyrddau oedd heb eu cloi yn yr ardal aros wedi cael eu selio gan nad oeddent yn cael eu defnyddio.
- Mae'r biniau ar gyfer offer miniog wedi cael eu gosod yn sownd wrth y wal yn y deintyddfeydd.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod y cypyrddau yn ardaloedd y cleifion bellach yn ddiogel. Nodwyd gennym hefyd fod biniau ar gyfer offer miniog bellach yn ddiogel yn y deintyddfeydd.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod sbectolau diogelwch yn cael eu glanhau rhwng pob claf.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y safle yn cael ei lanhau'n drwyadl.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn, yn unol â WHTM 01-05.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trafod, casglu a gwaredu gwastraff amalgam a dannedd a dynnwyd yn ddiogel.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae sbectolau diogelwch newydd wedi cael eu harchebu ac rwyf wedi cael trafodaeth â'r tîm cyfan ynghylch pwysigrwydd dihalogi ac atal croes-heintio rhwng cleifion.
- Mae Archwiliad WHTM01-05 wedi cael ei gwblhau ac rydym yn aros am adborth gan Ddeoniaeth Cymru.
- Mae gennym gontract gyda'r casglwr gwastraff SRCL. Mae'r contract yn cynnwys y pecyn deintyddol gydag 8 pot ar gyfer ffoil plwm, blwch dannedd, drymiau slwtsh, cynhwysydd Amalgam a chapsiwlau, bin offer miniog.
- Rwyf wedi adolygu'r arfer o waredu gwastraff yn y practis ac wedi rhoi gwybod i'r tîm cyfan am wahanu'r gwastraff deintyddol yn gywir.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom fod y sbectolau diogelwch yn y deintyddfeydd bellach yn addas at y diben ac yn lân.

Gwelsom fod archwiliad WHTM 01-05 wedi cael ei gwblhau. Roedd y practis yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau y cynhelir hyfforddiant parhaus er mwyn sicrhau bod lefelau hylendid y practis yn briodol. Roedd prosesau hefyd ar waith er mwyn sicrhau bod ardaloedd clinigol ac anghlinigol yn cael eu cadw'n lân ac nad ydynt yn cynnwys annibendod nac eitemau a allai beri risg o groes-heintio. Nodwyd gennym fod y prosesau hyn yn cael eu dilyn.

Nodwyd gennym fod contractau gwastraff clinigol yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod gwastraff clinigol ac anghlinigol bellach yn cael ei brosesu'n briodol. Roedd polisi'r practis a oedd ar waith yn cyd-fynd â'r broses hon.

Rheoli Meddyginiaethau

Pa welliannau a nodwyd

Nododd AGIC yn ystod yr arolygiad nad oedd prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu cyffuriau a chyfarpar brys a oedd wedi darfod.

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd o ganlyniad i'r canfyddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae angen proses i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y bydd y practis yn sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwaredu'n briodol.
- Mae angen rhoi polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddeall yn iawn.
- Mae angen cadw cofnod clir o'r meddyginiaethau a roddir i'r cleifion ar wahân i gofnodion clinigol y cleifion.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod eitemau clinigol, megis meddyginiaethau, yn cael eu cadw yn eu hoergell eu hunain i ffwrdd oddi wrth eitemau anghlinigol.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser i atal pobl anawdurdodedig rhag eu defnyddio.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

- Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella: O ran sicrhau bod meddyginiaethau a chyfarpar o fewn eu dyddiadau defnyddio:
 - a) Rwyf wedi creu protocol safonedig ar gyfer y cyffuriau a'r cyfarpar meddygol brys.
 - b) Rwyf wedi cael nodwyddau newydd yn lle'r hen rai sydd â dyddiad darfod o 08/2023. Hefyd, mae'r tîm cyfan wedi'i hyfforddi i'w defnyddio yn dilyn cwrs mewnol ar argyfyngau meddygol.
 - c) Caewyd y ddeintyddfa ar 10/04/19 a chafodd y practis cyfan ei lanhau'n drwyadl. Cafodd yr holl ddeintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc eu glanhau a'u gwirio.

Cafodd unrhyw ddeunyddiau neu gyfarpar a oedd wedi darfod eu gwaredu o'r safle.
 - d) Wrth symud ymlaen, rwyf wedi creu protocol lle caiff yr holl ddeintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc eu gwirio'n fisol a bydd unrhyw stoc sy'n nesáu at ei dyddiad darfod yn cael ei gwaredu. Hefyd, mae angen i'r cwpwrdd stoc gael ei drefnu yn unol â dyddiadau darfod y deunyddiau h.y. mae angen i'r deunyddiau sydd â'r dyddiadau darfod cynharaf fod yn y tu blaen, a'r deunyddiau sy'n gallu para'n hwy fod yn y cefn.
 - e) Byddaf yn cynnal hapwiriadau yn y deintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc er mwyn sicrhau bod y protocolau'n cael eu dilyn. Byddaf yn gwneud hyn drwy drefnu amser yn fy nyddiadur ar gyfer hapwiriadau. Drwy wneud hyn, bydd amser penodol wedi'i drefnu er mwyn sicrhau bod yr hapwiriadau'n digwydd.
- Mae'r polisi rheoli meddyginiaethau wedi cael ei adolygu ac mae protocol cyffuriau brys newydd wedi cael ei roi ar waith yn y practis. Ers 30/04/19.
- Yn achos argyfwng meddygol, mae angen cadw cofnod ar wahân o unrhyw gyffuriau a roddir i'r cleifion. Mae cofnodlyfr newydd yn cael ei gadw gyda'r pecyn cyffuriau.
- Mae oergell ar wahân wedi cael ei gosod er mwyn cadw meddyginiaethau ac eitemau anghlinigol ar wahân.
- Caiff padiau presgripsiwn eu cadw mewn cabinet dan glo yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod dros nos.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod protocol bellach ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau a chyfarpar brys. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y rhain yn dal i gael eu gwirio'n gyson, ac er y rhoddwyd sicrwydd i ni ar y diwrnod fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid cynnal y rhain yn gyson bob wythnos er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw wythnosau yn cael eu colli.

Nodwyd gennym nad oedd gan y practis bediau pediatrig priodol i'w defnyddio gyda'r peiriant diffibrilio. Byddai hyn yn gorfodi'r defnyddiwr i ddefnyddio padiau i oedolion mewn argyfwng. Gwnaethom gynghori'r practis i gael gafael ar bediau pediatrig ar gyfer y pecyn argyfwng er mwyn sicrhau bod y cyfarpar mwyaf diogel posibl ar gael i'r practis mewn argyfwng.

Nodwyd gennym fod y practis cyfan wedi cael ei lanhau'n drwyadl.

Nodwyd gennym hefyd fod yr holl stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd, er i ni nodi fod hyn hefyd yn anghyson. Roedd polisi rheoli stoc y practis yn nodi y cynhelir gwiriadau bob mis. Gwnaethom argymhell bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r polisi hwn.

Nodwyd gennym fod polisi rheoli meddyginiaethau bellach ar waith a bod pob aelod o'r staff wedi cytuno arno a'i ddeall. Nodwyd gennym hefyd fod polisi rheoli stoc wedi cael ei roi ar waith yn benodol ar gyfer yr ystafell stoc. Roedd cofnodlyfr hefyd yn cael ei gadw gyda'r pecyn cyffuriau brys.

Mae oergell ar wahân bellach yn cael ei defnyddio i storio cyffuriau y mae angen eu cadw mewn oergell.

Gwelsom hefyd fod padiau presgripsiwn bellach yn cael eu cadw dan glo bob amser.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio'n wythnosol

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau pediatrig addas ar gael yn y pecyn argyfwng

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd yn unol â'r polisi y cytunwyd arno.

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Rydym wedi penderfynu cynnal archwiliadau clinigol rheolaidd bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cadw cofnodion ar hyn o bryd.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod y practis wedi dechrau cynnal rhaglen o archwiliadau clinigol a bod y practis yn ystyried ac yn dechrau ar amrywiaeth o archwiliadau, er mwyn ategu'r rhaglen datblygu parhaus.

Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Dylai'r practis ystyried rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid i'r staff clinigol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Rwyf wedi penderfynu rhoi deintyddfa arall yn y practis a phenodi deintydd cyswllt/locwm/partner i rannu fy llwyth gwaith cleifion. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i mi gynnal adolygiadau cymheiriaid yn y practis.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwnaethom nodi bod y prif ddeintydd wrthi'n gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Practisau Deintyddol y Bwrdd Iechyd ac AGIC er mwyn ategu rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid.

Rheoli Cofnodion

Pa welliannau a nodwyd

Ni allai AGIC fod yn sicr bod y prif ddeintydd yn defnyddio prosesau clinigol proffesiynol o ran cadw cofnodon.

Mae'n ofynnol i'r practis gadw cofnodion yn well er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod archwiliadau'n cael eu cofnodi;
- Bod asesiadau risg yn cael eu cofnodi'n gyson;
- Bod archwiliadau o'r tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg yn cynnwys digon o fanylion ac yn cael eu cofnodi'n gyson;
- Bod radiograffau yn gyson yn ystod archwiliadau arferol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Er mwyn sicrhau AGIC fy mod yn cadw cofnodion yn gywir ac yn cofnodi archwiliadau clinigol, rwyf wedi penderfynu ymgymryd â'r camau canlynol:
 - a) Byddaf yn gweithio ar y cyd â "Chynghorwyr Deintyddol Bwrdd Iechyd Bae Abertawe", Chris Wills-Wood a Richard Jones, sydd wedi cytuno'n garedig i fy helpu i gynnal fy archwiliad cadw cofnodion nes y byddaf yn cyrraedd safon dderbyniol.
 - b) Rwyf hefyd mewn cysylltiad â Dr Johnstone o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn cynnal archwiliad cadw cofnodion a gymeradwyir gan CAPRO.
 - c) Byddaf yn mynd ar gwrs datblygiad proffesiynol parhaus a gynhelir gan AaGIC ar gadw cofnodion ar 25/05/2019.
 - d) Rwyf wedi trefnu lle ar sawl cwrs er mwyn ymdrin â materion cadw cofnodion a nodwyd mewn arolygiadau diweddar. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn fy nghynllun datblygu personol ac maent yn cwmpasu'r meysydd canlynol:
 - i) Radiograffau – byddaf yn cynnal archwiliad o radiograffau a gymerir a'u hamlder.

- ii) Cynllunio triniaethau – cyrsiau wedi'u trefnu ac ysgrifennu myfyriol i'w wneud yn dilyn y cwrs.
 - iii) Rheoliadau'r GIG – cwrs wedi'i drefnu ac ysgrifennu myfyriol i'w wneud.
 - iv) Ysgrifennu myfyriol ar safonau Cyfadran yr Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol (FGDP) ar gadw cofnodion.
- Byddaf hefyd yn ysgrifennu'n fyfyrwr am fy ngwaith cynllunio triniaethau ar y cyd â'm mentoriaid
 - Rheoli'r practis
 - a) Rwy'n sylweddoli y gallaf ond fod mor gryf â fy nhîm, felly byddaf yn trefnu hyfforddiant rheoli i mi fy hun a rheolwr y practis.
 - b) Rwy'n bwriadu recriwtio therapydd neu weithiwr cyswllt er mwyn rhyddhau amser ar gyfer rheoli'r practis ac i ganiatáu mwy o amser ar gyfer apwyntiadau.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod safonau'r cofnodion a adolygwyd wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad cyntaf. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar gadw cofnodion fel rhan o raglen cymorth barhaus. Roedd yn cael cymorth ychwanegol gan Gynghorwyr Practisau Deintyddol y Bwrdd Iechyd¹ ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)²; roedd templedi cynhwysfawr bellach ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliad cadw cofnodion, er mwyn adolygu cofnodion a nodi meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau arfer gorau ymhlith y deintyddion i gyd.

¹ Cyflogir Cynghorwyr Practisau Deintyddol gan y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod pob practis deintyddol sydd â contract i ddarparu gofal deintyddol y GIG yn gwneud hynny yn unol ag amrywiaeth o ganllawiau proffesiynol.

² <https://www.walesdeanery.org/corporate-services-home-page/health-education-and-improvement-wales-heiw>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Nid ystyriwyd unrhyw welliannau penodol o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth.

6. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

7. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu y byddwn ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|--|--|----------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gupta Dental Surgeons

Dyddiad arolygu: 08 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-----------------------------|--|---------------------|--------------------------|
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio'n wythnosol | 15. Rheoli meddyginiaeth au | Caiff cofnodlyfr ei lenwi'n briodol bob wythnos a'i groeswiro a'i lofnodi. | Amrish Gupta | Wedi'i wneud a'i gynnal. |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau pediatrig addas ar gael yn y pecyn argyfwng | | Mae padiau pediatrig ar gael ar y safle. | Amrish Gupta | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd yn unol â'r polisi y cytunwyd arno | | Caiff cofnodlyfr o ddyddiad darfod stoc ei greu a chaiff yr ystafell stoc ei gwirio bob mis. Caiff ei groeswiro hefyd. | Amrish Gupta | Wedi'i wneud a'i gynnal. |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amrish Gupta

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 30 Medi 2019